

10 Ffordd o Ddefnyddio Sony Vision Exchange

SONY

VE

Mae Sony Vision Exchange yn declyn addysgu newydd ar gael ym mhob ystafell ddysgu hyblyg newydd yn SA1.

Mae'n ychwanegol, nid yn ddisodliad, i'r cyfarpar technegol presennol (cyfrifiadur, taflunydd a sgrin).

- Cysylltiad cyflym a rhwydd drwy'r ap VE i staff a myfyrwyr.
- Rhannu cynnwys myfyrwyr i'r brif sgrin, anodi a chadw delwedd.
- Rhyngwyneb rhesymegol a naturiol - teclynnau un-clic a llusgo/gollwng.
- Diderfyn - rhannwch beth bynnag sydd ar sgrin y ddyfais, gan gynnwys meddalwedd arbenigol.
- Cadw rheolaeth - chi sy'n penderfynu beth sydd yn cael ei arddangos ar bob adeg.

01 Trafodaeth ac Adborth

Gosodwch gwestiwn, problem neu senario i'ch myfyrwyr i drafod mewn grwpiau ac yna cofnodi eu hatebion yn ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd priodol. Yna gofynnwch iddynt rannu drwy Sony Vision Exchange - trafodwch yr atebion fel dosbarth cyfan, pwysleiswch bwyntiau pwysig drwy anodi, ac yna cymrwch giplun o'r ddelwedd i rannu ar ôl y sesiwn ar gyfer adolygu ac atgyfnerthu.

02 Annog Rhannu

Gall fyfyrwyr awgrymu adnoddau defnyddiol, e.e. wefan, yn gyflym ac yn rhwydd drwy rannu ac arddangos yr adnodd drwy Sony Vision Exchange yn hytrach nag orfod esbonio'r adnodd ar lafar i weddill y dosbarth.

03 Cadw Gwaith Di-ddigidol

Gellir rhannu gweithgareddau corfforol a di-ddigidol drwy Sony Vision Exchange. Tynnwch ffotograff o waith ar bapur neu fwrdd gwyn, neu fideo o broses, perfformiad neu gyfweiliad, a rhannwch, anodwch a chadwch y ffotograff/fideo drwy Sony Vision Exchange.

04 Ymchwil Cydweithiol

Gosodwch dasgau amrywiol i grwpiau gwahanol o fyfyrwyr - er enghraifft casglu a chyflwyno setiau data gwahanol. Cymharwch a chyferbynnwch yn yr ardal ddysgu gan rhannu drwy Sony Vision Exchange, yna anodwch fel yn briodol a thynnu ciplun o gyfraniad bob grwp er mwyn gallu darparu set data cyfan i'r myfyrwyr ar gyfer adlewyrchu ac adolygu.

05 Datrys Problemau Ar Y Cyd

Drwy rannu sgriniau myfyrwyr sydd yn wynebu problemau gyda thasgau yn y sesiwn dysgu gallwch hwyluso datrys problemau cydweithredol a chyfoethogi trafodaeth ar gyfer y grwp cyfan. NB — Mae'n bwysig sicrhau sensitifrwydd a diwylliant dosbarth bositif a chefnogol er mwyn osgoi embaras.

06 Defnyddio VE fel eich Technoleg Arferol

Wrth gyflwyno gwybodaeth, dangoswch eich cyflwyniad drwy Sony Vision Exchange naill ai drwy'r cyfrifiadur ar y darlennfwrdd neu drwy liniadur - gallwch gyfnwdd yn rhwydd rhwng eich cyflwyniad a chynnwys a gyflwynir gan eich cynulleidf, anodi sleidiau wrth i syniadau newydd ymddangos a chofnodwch y sleidiau newydd eu hanodi er mwyn eu rhannu.

07 Gwella Cyfranogiad

Annog myfyrwyr swil i gyfrannu drwy eu galluogi i osod enw anhysbys i'w dyfais yng ngosodiadau'r ap.

08 Rhannu Arfer Dda

Gallwch amlygu arfer dda a ddangoswyd gan fyfyrwyr o fewn sesiwn a'i rhannu â phawb gan ddefnyddio Sony Vision Exchange.

09 Defnyddio Cynnwys Myfyrwyr

Ar ymweliadau maes gall fyfyrwyr dynnu ffotograffau neu fideo ar eu dyfeisiau symudol, ac yna gellir arddangos y cynnwys hwnnw yn ôl yn yr ystafell addysgu er mwyn sbarduno trafodaeth, dadansoddi ac adlewyrchu.

10 Cyfoethogi Adborth

Gellir cyfoethogi ymchwil ac ymholiadau drwy fyfyrwyr yn rhannu eu darganfyddiadau yn weledol, yn hytrach nag adrodd yn ôl ar lafar.